



GwE

Bwletin GwE

CYDWEITHIO

DYSGU

LLWYDDO



Rhannwch ein bwletin â thîm staff yr ysgol i gyd ac anogwch eich holl gyd-weithwyr i ymuno â'n [rhestr bostio](#).

Rhifyn Arbennig - Cwricwlwm i Gymru

Arlwy Dysgu Proffesiynol i Benaethiaid a Staff Dysgu



Nodir isod manylion pellach am gynnwys yr arlwy dysgu proffesiynol fydd ar gael i benaethiaid a staff dysgu dros y misoedd nesaf.

1. GWEITHDAI DYLUNIO'R CWRICWLWM

CYNULLEIDFA: PENAEITHAID AC AELODAU UDRh

DYDDIADAU CYNRADD

ALI	Cyfrwng	Dyddiad	Amser
Gwynedd	Cymraeg	01/03/2022	15:45-16:45
Môn	Cymraeg	03/03/2022	15:45-16:45
Conwy a Sir Ddinbych	Cymraeg	07/03/2022	15:45-16:45
Conwy a Sir Ddinbych	Saesneg	01/03/2022	15:45-16:45
Fflint a Wrecsam	Cymraeg	08/03/2022	15:45-16:45
Fflint a Wrecsam	Saesneg	03/03/2022	15:45-16:45

DYDDIADAU UWCHRADD

Cyfrwng	Dyddiad	Amser
Cymraeg	01/03/2022	10:00-11:00
Saesneg	01/03/2022	14:00-15:00
Saesneg	03/03/2022	10:00-11:00
Cymraeg	03/03/2022	14:00-15:00



Bryn Eirias, Ffordd Abergele,
Bae Colwyn, LL29 8BY



0300 500 8087



Canolfan Cefnogaeth GwE



@GwEGogleddCymru



post@gwegogledd.cymru



www.gwegogledd.cymru



g6.gwegogledd.cymru



GwE Gogledd Cymru

GWEITHDAI DYLUNIO'R CWRICWLWM (PARHAD...)

Os na allwch fynychu'r gweithdy a neilltuwyd ar gyfer eich ALL, mae croeso i chi ymuno ag unrhyw un o'r gweithdai eraill. Bydd dolenni ar gyfer yr holl weithdai yn cael eu hanfon atoch maes o law.

Erbyn diwedd y weminar hon fe ddylai fod gennych:

- ddealltwriaeth glir o'r gofynion statudol parthed gweithredu CiG.
- eglurder o'r disgwyliadau fel y'u nodir yn 'Cwricwlwm i Gymru: taith i weithredu'
- dealltwriaeth o'r broses o ddylunio cwricwlwm ar gyfer eich ysgol
- dealltwriaeth o ofynion eich pwrpasau a phrosesau asesu
- amrywiaeth o fodelau ac enghreifftiau i'ch cefnogi wrth greu eich rhesymeg a chrynodeb cwricwlwm
- ymwybyddiaeth o ganllawiau newydd Estyn

Fel dilyniant i'r gweithdy bydd yr Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant cyswllt yn gallu cynnig cefnogaeth bellach fydd wedi'i theilwra at ofynion ac anghenion yr ysgol neu'r gynghrair. Gall hyn gynnwys rhannu enghreifftiau o strwythurau/ modelau cwricwlwm posib i sbarduno trafodaethau proffesiynol wrth i chi ddatblygu eich gweledigaeth a'ch rhesymeg dros eich cwricwlwm.

Ynglwm mae copïau PDF o'r adnodd trosolwg o'r broses o ddylunio'r cwricwlwm a dwy enghraifft o sut y gallai rhesymeg cwricwlwm edrych a rannwyd yn y gweithdy diweddar i Benaethiaid. Os hoffech dderbyn y dogfennau PowerPoint a Word gwreiddiol, cysylltwch â'ch YCG. Os ydych chi eisoes wedi dechrau agweddau ar y gwaith hwn, mae croeso i chi ddod â'ch syniadau a'ch gwaith i'r gweithdy.

Mae tudalen we ar gyfer y broses dylunio cwricwlwm a amlinellir yma: <https://express.adobe.com/page/hqkN2Jxygu45c/>

2. GWEITHDAI ASESU A CHYNNYDD

CYNULLEIDFA: PENAEITHAID AC AELODAU UDRh, CYDLYNWYR ASESU

DYDDIADAU CYNRADD

Cyfrwng	Dyddiad	Amser
Cymraeg	15/03/2022	15:45-17:00
Saesneg	16/03/2022	15:45-17:00
Cymraeg	17/03/2022	15:45-17:00
Saesneg	22/03/2022	15:45-17:00
Cymraeg	23/03/2022	15:45-17:00
Saesneg	24/03/2022	15:45-17:00

AMCANION GWEITHDAI CYNRADD

- Bydd y gweithdy yn canolbwyntio ar egwyddorion asesu sydd wedi eu hamlinellu yn arweiniad CiG ynghyd â'r prif negeseuon yn arweiniad Estyn i Arolygwyr.
- Rhennir ystod o esiamplau sy'n dangos sut mae amrediad o ysgolion wedi ymateb i'r arweiniad asesu.

GWEITHDAI ASESU A CHYNNYDD (PARHAD...)

DYDDIADAU UWCHRADD

Cyfrwng	Dyddiad	Amser
Cymraeg	14/03/2022	10:00-11:00
Saesneg	15/03/2022	14:00-15:00
Cymraeg	16/03/2022	10:00-11:00
Saesneg	17/03/2022	10:00-11:00

AMCANION GWEITHAI UWCHRADD

Bydd y gweithdy yn canolbwyntio ar:

- Egwyddorion asesu fel y'u hamlinellir yng Nghannllaw CiG
- Arweiniad Estyn i Arolygwyr.
- Trafodaeth am yr Egwyddorion Dilyniant a'r camau
- Syniadau ar sut i ddatblygu cyd-ddealltwriaeth o ddilyniant yn yr Ysgol a'r clwstwr
- Ysgogiadau i gynorthwyo deialog broffesiynol ynghylch sut i gynllunio ar gyfer dilyniant yn y cwricwlwm
- Syniadau i helpu ysgolion i ddatblygu eu harferion a'u polisïau asesu eu hunain

3. GWEITHDAI EGWYDDORION CYNLLUNIO - CYNRADD AC UWCHRADD


Cyfrwng	Dyddiad	Amser
Cymraeg	29/03/2022	15:30-16:30
Saesneg	31/03/2022	09:15-10:15
Cymraeg	31/03/2022	11:00-12:00
Saesneg	31/03/2022	13:30-14:30
Saesneg	31/03/2022	15:30-16:30
Cymraeg	01/04/2022	09:15-10:15
Saesneg	01/04/2022	11:00-12:00
Cymraeg	01/04/2022	13:30-14:30

CYNULLEIDFA: PENAEITHAID, UWCH ARWEINWYR AC ARWEINWYR CANOL / MDaPh

SESIYNAU [DEWIS UN]:

Bydd y weminar yn darparu arweiniad a chefnogaeth ar:

- ddeall egwyddorion cynllunio ar gyfer dysgu oddi fewn i Cwricwlwm i Gymru
- deall egwyddorion asesu a chynnydd o fewn y broses gynllunio
- deall yr ystyriaethau allweddol a allai fod yn sail i ddewisiadau ysgol
- deall arweiniad y cwricwlwm a sut mae'r holl elfennau yn gyd-gysylltiedig
- gwneud y cysylltiadau rhwng dylunio cwricwlwm ysgol gyfan a chynllunio ar draws yr holl MDaPh
- a bydd yn enghreifftio'r broses o gynllunio gydag enghreifftiau ysgol go iawn



4. GWEITHDAI CYNLLUNIO - CYNRADD AC UWCHRADD

CYNULLEIDFA: ATHRAWON

Dyddiadau: o 25/04/2022 [union ddyddiadau i'w cadarnhau]

Yr arlwy i gynnwys arweiniad a chefnogaeth ar:

- Deall a dadbacio'r Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig
- Egwyddorion cynllunio'r cwricwlwm ar draws MDaPh
- Sut mae MDaPh yn cefnogi rhesymeg cwricwlwm yr ysgol
- Cynllunio ar gyfer dilyniant ac asesu ar draws MDaPh
- Cynllunio ar gyfer amrywiaeth o fodelau darparu
- Addysgu a dysgu effeithiol

Yn ychwanegol i hyn bydd:

- Cylchlythyr Cwricwlwm i Gymru ar eich cyfer
- Arweiniad a chynnyrch y Rhwydweithiau Rhanbarthol a Lleol yn cael eu rhannu trwy Ganolfan Cefnogaeth GwE
<https://www.gwegogledd.cymru/>

Bydd y dolenni i ymuno â'r gweithdai dylunio, asesu ac egwyddorion yn cael eu hanfon mewn e-bost yn syth i'r ysgolion. Nid oes angen cofrestru.